

LLAIS YR ANDES

AUGUST 2017

£40

UGAIN MLYNEDD O GYNLLUN DYSGU CYMRAEG YN YR ANDES

LLUNIAU O'R ARCHIF: Dosbarthiadau, athrawon o Gymru, ysgoloriaethau i astudio yng Nghymru. Pwy dych chi'n nabod? Pa flwyddyn tybed?



AMBAR DWI

Dwi'n 12 oed.

Dwi'n byw yn Nhrevelin.

Dwi'n mynd i ysgol 57.

Dwi'n hoffi siarad gyda ffrindiau.

Dwi'n hoffi canu.

Dwi'n hoffi Bwyta ffrwythau.



Sgwrs

Ailen: Helo.

Aixa: Shwmae?

Ambar: Sumae?

Ailen: Pwy wyt ti?

Aixa: Aixa dwi. Pwy wyt ti?

Ambar: Ambar Flix dwi.

Aixa: Ble wyt ti'n byw Ailen?

Ailen: Dwi'n byw yn Aldea. Ble wyt tin byw Aixa?

Ailen: Dwi'n byw yn Nhrevelin. Ble wyt ti'n byw Ambar Flix?

Ambar: Dwi'n byw yn Nhrevelin hefyd. Sut wyt ti Ailen?

Ailen: Dwi'n dda iawn diolch. Sut wyt ti Ambar Flix?

Ambar: Dwi'n dda iawn.

Aixa: Wyt tin hoffi cacen ddu?

Ambar: Nac ydw, dwi dim yn hoffi cacen ddu. Wyt ti'n hoffi mynd i'r ganolfan hamdden?

Ailen: Ydw dwi'n hoffi mynd i'r ganolfan hamdden.

Aixa: Beth wnest ti ar ôl ysgol ddoe?

Ailen: Es i i'r tŷ a bwytais i gyw ar ôl ysgol ddoe.

Aixa: Wyt tin hoffi asado?

Ailen: Ydw dwi'n hoffi asado.

Ambar: Nac ydw dwi ddim yn hoffi bwyta asado.

Ailen: Wyt yn hoffi dawnsio?

Aixa: Ydw dwi'n hoffi dawnsio.



Aixa dwi

Dwin 11 oed.

Dwi'n byw yn Nhrevelin.

Dwi'n mynd i ysgol 57 rifleros del chubut.

Dwi'n hoffi Rhedeg, A cerdded gyda ffrindiau.

Dwi'n hoffi dawnsio a canu.

Dwi'n hoffi bwyta ffrwythau.



Ailen dwi.

Dwi'n 13.

Dwi'n byw yn agos i Aldea escolar.

Dwi'n mynd ysgol 740.

Dwi'n hoffi cerdded a siarad gyda ffrindiau.

Dwi'n hoffi bwyta cyw gyda sglodion.



Ambar: Wyt ti'n hoffi canu?

Ailen: Ydw dwi'n caru canu ond dwi'n canu'n ofnadwy!

Aixa: Dwi hefyd yn canu ofnadwy!

Ambar: Dwi'n canu'n ofnadwy hefyd.

Ailen: Wyt ti'n hoffi ceffylau?

Ambar: Nac ydw .

Aixa: Dwi'n hoffi ceffylau.

Ambar: Wyt tin hoffi reggaeton?

Ailen: Nac ydw!

Aixa: Dwin hoffi reggaeton!

Aixa: Ble wyt ti'n mynd nawr? .

Ailen: Dwi'n mynd i'r tŷ. Dwi'n cerdded i tŷ Nain.

Aixa: Ta Ta. Hwyl!

Ambar: Ta ta. Hwyl!

Ailen: Ta Ta. Hwyl! .



Pwy 'Dych Chi?

Dysgwyr Esquel



Helo! Sut dych chi? Monica dw i. Dwi'n byw yn Esquel ond yn wreiddiol dwi'n dod o Gonzales Chaves, Buenos Aires. Dwi'n hanner cant oed. Dwi'n gweithio yng nghanolfan Pen blwydd Felix Eventos. Mae pedair merch gyda fi; mae Aimara yn ugain, mae Rosana yn un deg wyth, mae Lis yn ddeuddeg ac mae Ana Paula yn saith oed. Dwi'n hoffi bwyta teisen, bisgedi, ac asado. Dwi'n hoffi beicio. Dwi'n hoffi dysgu Cymraeg achos mae'n ddiddorol. Mae Ana Paula yn dysgu Cymraeg hefyd gyda Marina. Hoffwn i siarad Cymraeg yn well. Hoffwn i ddawnsio gwerin – ron i'n dawnsio gwerin gyda Iwan Madog. Hoffwn i ennill y loteri i brynu tŷ a mynd ar wyliau.



Helo, Maxi dwi, dwi'n un deg pump oed. Dwi'n dod o Esquel a dwi'n byw yn Esquel. Dwi'n hoffi dawnsio, cysgu a chwaraeon. Dwi ddim yn hoffi bwyta banana, dwi ddim yn hoffi lliw melyn. Dwi'n hoffi chwarae pêl-law a beicio. Dwi'n hoffi astudio Cymraeg; dyma fy negfed blwyddyn. Fy hoff le ydy'r mynyddoedd.


Helo! Jere dw i. Dwi'n 12 oed. Dwi'n hoffi dawnsio, dwi'n hoffi pob math o fiwsig. Eleni dwi'n gwneud WLPAN gyda Monica, Maxi, Nadia a Nora. Dwi'n hoffi chwarae pêl-law, pêl-fasged a rygbi. Fy hoff fwyd ydy byrgys. Ta ta!



Helo! Nadia dw i, dwi'n byw yn Esquel. Dwi'n 20 oed. Dwi'n hoffi darllen, nofio a canu. Dwi'n hoffi coluro yn fawr iawn a peintio gewinedd. Dwi'n astudio colur yn brofesiynol. Heddiw, fy hoff liw ydy coch. Dwi'n hoffi cyfarfod gyda ffrindiau. Dwi'n caru cathod. Dwi'n bwyta pastas a hufen iâ. Dwi ddim yn hoffi coginio. Hoffwn i fynd i Gymru. Fy hoff bobl enwog ydy Abel Pintos, Lana Del Rey a Mon Laferte. Fy hoff ffilm ydy "Orgullo y Prejuicio – dwi'n cary Sr. Darcy. Fy hoff lyfr ydy Eleanor a Park achos ces i'r llyfr yn anrhed gyda fy nhad.

Nora dwi. Dwi'n dod o Fuenos Aires yn wreiddiol. Therapydd llais dw i. Dwi'n gweithio yn yr ysgol ac mewn clinic. Dwi'n hoffi helpu pobl i siarad mwy. Allen ydy enw fy ngwr i ac mae pedwar o blant gyda ni. Douglas ydy enw'r plentyn hynaf, mae o'n byw yn Oxfordshire; mae John yn byw yma, mae e'n dysgu bod yn athro ffiseg; mae Paul yn warden coed ac mae Mike yn dysgu'r ffidil yn Roca. Fy hoff hobi ydy chwarae ping pong. Hoffwn i siarad Cymraeg yn well. Hoffwn i fynd i Gymru i fyw mewn teulu Cymraeg am un mis i siarad Cymraeg trwy'r dydd.





Mae Grisel Roberts yn un o llwyddiannau mwyaf cynllun dysgu Cymraeg yn y Wladfa. Dechreuodd hi ddysgu gyda Hazel Charles Evans yn Esquel, teithiodd hi nifer o weithiau i Gymru i astudio ymhellach ac erbyn hyn mae hi'n hollol rhugl yn y Gymraeg. Eleni, roedd Grisel yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgrifennu traethawd Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

20 mlynedd Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut - llwyddiant?

Ydy'r cynllun wedi bod yn llwyddianus? Mae e'n anodd iawn mynegi barn gyffredinol. Does dim ffeithiau wir yn bodoli, mae bob amser ddwy ochr neu fwy ar gyfer pob barn. Felly, fydda i ddim yn ysgrifennu traethawd ddadleugar, bydda i'n ysgrifennu dim ond stori o'r hyn yr oeddwn wedi ei weld ac yn byw ac efallai fydd e'n helpu y darllenwr ddod i benderfyniad os mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiant neu beidio.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg ym 1998, blwyddyn ar ôl i'r cynllun ddechrau yn Esquel. Roeddwn i'n un deg pedwar oed. Roedd fy nain yn arfer dweud roedd fy nhaid yn deall pob gair ond ni allai siarad. Roedd fy ngheulu ochr fy nhad yn ddisgynyddion o'r Cymry cyntaf, ond roedd hwn yn golygu dim ond te am bump o'r gloch, straeon byrion yr ymfudwyr cyntaf cyn mynd i'r gwely a rhai geiriau fel "nain" a "taid" yn ein beunydd Sbaeneg.

Bu farw fy nhaid pan roeddwn i'n ddeuddeg oed. Ar ôl iddo fe farw, yn ogystal â llawer mwy o bethau, collon ni (tad, chwiorydd, modryb, ewyrth, cefndryd a chyfnitheroedd) ein cysylltiad gyda'r iaith. Roedd fy nhaid yn teimlo'n Gymraeg a roedd e'n Gymro i'r carn, meddan nhw. Roedd ganddo fe gymeriad Cymraeg, wyneb Cymraeg, ffordd Gymraeg o gerdded a ffordd Gymraeg o siarad Sbaeneg, meddan nhw. Doeddwn i ddim wedi cyfarfod pobl o Gymru, felly fyddwn i ddim yn gwybod. Ond roeddwn i'n gwybod ei fod wedi gallu deall Cymraeg ac nid oedd wedi gallu siarad Cymraeg. Roeddwn i'n sicr y byddai wedi hoffi i mi wneud yr hyn doedd e ddim yn gallu. Felly, penderfynais i gofrestru i'r dosbarthiadau Cymraeg er mwyn ceisio helpu'r hiraeth, a'i gadw fe gyda fi a'i wneud fe'n falch.

O'r foment honno ymlaen, roedd yr iaith Gymraeg yn fy nilyn fel ysbryd. Dysgais i pedair mlynedd cyn roedd rhaid i mi symud i La Plata, ger Buenos Aires i fynd i'r brifysgol. Yn La Plata, ches i ddim athrawon na chysiau chwaith, ond gwnes i llawer o bethau i gadw cysylltiad gyda'r Gymraeg. Ces i gyfle i ffeindio pobl eraill o Chubut a dechreuais i ddysgu nhw Cymraeg a llwyddais i i gadw fy safon yn y Gymraeg trwy gydol y blynyddoedd roeddwn i'n byw i ffordd o Esquel, mewn man lle nad oes neb yn siarad Cymraeg. Es i i fyw i Awstralia am flwyddyn a roeddwn i'n cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau gyda'r nod o hybu Gymraeg a diwylliant Cymreig. Symudais i yn ôl i Esquel dwy flynedd yn ôl ac ymunais i ddosbarth Cymraeg eto. Yn 2016 dechreuais i ddysgu fel athrawes, sefais i arholiad Canolradd a ches i ysgoloriaeth gan y Cyngor Prydeinig i fynd i Gaerdydd i astudio Cymraeg mewn cwrs Uwch. Dw i'n dal i astudio Cymraeg fel myfyrwraig a dw i'n dal i ddysgu Cymraeg fel athrawes. Ers i mi ddechrau astudio Cymraeg, un deg naw mlynedd yn ôl, dw i ddim wedi rhoi'r gorau i astudio Cymraeg a gwneud pethau i'w hyrwyddo. Fydda i ddim yn rhoi'r gorau oherwydd, dw i wedi darganfod, hwn ydy fy ffordd o deimlo'n agosach at fy hynafiaid.

Felly, mae y Gymraeg wedi bod yn rhan bwysig iawn yn fy mywyd. Fodd bynnag, nid felly oedd hi i fod: cyn 1997 doedd dim siawns o gwbl gyda fi i ddysgu na siarad Cymraeg. Dw i'n deall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg oherwydd y prosiect hwn. Mae'r prosiect hwn wedi dysgu fi fy ngair Cymraeg cyntaf a wedi gwneud fi yr un cyntaf yn fy ngheulu i siarad Cymraeg. O fy nhaid ymlaen, fe wnaeth y Gymraeg neidio un genhedlaeth a ffeindio fi a thrwy ddysgu a siarad Cymraeg, dw i'n meddwl fy mod i'n anrhydeddu fy hynafiaid.

Dw i'n meddwl bod e'n bwysig iawn ein bod ni'n dysgu ein iaith lleiafrifol i gymryd gofal o ein treftadaeth ddiwylliannol. Mae'n gwneud i mi ymwneud â phobl o Gymru. Mae'n gwneud i mi garu y wlad dramor, yn meddwl amdano fe fel fy ail gartref ac adfywio y teimlad hwnnw o hiraeth ar ei gyfer a deimlodd yr ymfudwyr cyntaf. Ond yn bwysicaf oll, mae'n siapio y ffordd yr ydw i ac mae'n fy helpu i ddiffinio fy hunaniaeth.

Dw i ddim yn gwybod yn union sut oedd y sefyllfa yr iaith Gymraeg cyn i'r cynllun ddechrau. Ond dw i wedi bod yn dyst i lawer o bobl yn dechrau gwersi Gymraeg a dechrau siarad a'u hen taid a nain. Dw i wedi bod yn dyst i ysgolion dwyieithog yn agor eu drysau. Dw i wedi bod yn dyst i adeiladau yn mynd i fyny lle 'nid cerrig ond cariad yw'r meini'. Dw i wedi bod y dyst i'r capeli yn agor eu drysau eto a dw i wedi clywed gwasanaethau a chanu emynau yn y Gymareg. Dw i wedi bod yn dyst i'r pobl o'r Ariannin yn mynd i Gymru i ddysgu Cymraeg am y tro cyntaf, dw i wedi gweld nhw yn astudio yn galed. Dw i wedi bod yn dyst i'r athrawon o Gymru yn cydweithio oriau maith gyda ni. Dw i wedi gweld pobl o Gymru yn dod yma i addysgu, i helpu, i gwrdd â ni fel brodyr. Dw i wedi bod yn dyst i'r nerthiad o'r cysylltiad rhyndgon ni. Dw i wedi bod yn dyst i'r dathliadau ar gyfer y cantpumdeg mlywddiant ers dyfodiad y Cymry a dw i wedi bod yn dyst i'r pobl o Chubut yn canu 'Yma o hyd' a'r anthem genedlaethol gyda'r un teimlad a'r Cymry. Dw i wedi bod yn dyst i'r ymwybyddiaeth Gymraeg yn datblygu ym mhob un ohonom. Dw i wedi bod yn dyst i'r cyfnewid digynsail rhwng y ddwy wlad, y ddwy wlad yn fwy ymwybodol o fodolaeth y llall. Ers i mi ddechrau ddysgu Cymraeg, dw i wedi bod yn dyst i'r ddau diwylliant yn dod yn agosach at ei gilydd.

Dyn ni'n Archentwyr, mae'n wir. Nid Cymry dyn ni. Ond dyn ni'n teimlo fel Cymry ac dyn ni'n teimlo fel Cymry ar gyfer yr iaith. Yma mae pobl yn ymdrechu i addysgu a dysgu Cymraeg. Mae pobl yn buddsoddi arian ac amser, eu hiechyd a'u bywydau er mwyn dysgu Cymraeg, er mwyn addysgu Cymraeg, er mwyn trosglwyddo'r diwylliant. Yn yr Ariannin, ni fydd addysgu a dysgu Cymraeg yn cael swydd well i chi. Ni fydd yn gwneud i chi ennill mwy o arian. Ni fydd yn rhoi rhagolygon gwell na chwaith yn edrych yn wych ar eich CV.

Nid yw'n cael ei annog gan y llywodraeth. Nid yw hyd yn oed yn cael ei ddefnyddio tu allan o'n talaith (dydy gweddill y wlad ddim yn gwybod hyd yn oed ble mae Cymru). Ni fyddwch yn cael y cyfle i ddefnyddio neu wrando ar Gymraeg bob dydd ac nid yw llawer yn ei siarad yn y byd. Mae pob un ohonon ni wedi dewis astudio Cymraeg gyda ein calonnau, nid gyda ein meddwl.

Sut dyn ni'n gallu mesur llwyddiant y cynllun iaith Gymraeg yn Chubut? Gan faint? Gan ansawdd? Gan ystadegau? Dw i'n mesur llwyddiant y cynllun iaith yn y ffordd mae e wedi newid fy mywyd. Mae'r cynllun wedi datblygu yr iaith ac angerdd tuag at yr iaith, ond nid dim ond yr iaith. Mae'r cynllun wedi gwneud i ni deimlo fel rhan o Gymru, wedi datblygu diwylliant Cymreig ym Mhatagonia ac ymwybyddiaeth ddofn o ein hunaniaeth. O ran y dyfodol, dw i'n gallu ragweld mwy fyth o ddatblygiad yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn Chubut; efallai nad oes dim llawer iawn ohonon ni, ond dyn ni'n benderfynol. Mae eich frwydr dros yr iaith a'r diwylliant Cymreig ydy ein un ni hefyd. Dyn ni'n gwybod nad dyn ni ar ein pennau ein hunain, dych chi ar yr ochr honno o'r lwerydd ac mae'r cynllun yn cymorth i wneud y bond yn gryfach.

Os dw i'n gallu ysgrifynnu hwn ac os dych chi'n gallu darllen hwn, mae oherwydd y cynllun i ddysgu Cymraeg, yr athrawon a'r ysgoloriaethau gefais. Y darn hwn ydy'r prawf o'r cynllun iaith ym Mhatagonia; er efallai fod camgemberiadau a mae e'n syml iawn, mae e'n brawf dyn ni wedi dysgu Cymraeg a dyn ni'n dal i ddysgu achos dyn ni eisiau gwella. Dyn ni yma o hyd, hyd yn oed y tô ifanc. Dw i'n teimlo yn ferch o'r cynllun hwn, fel llawer ohonom. Dw i'n teimlo rhan ohono fe, o'r bobl sy'n gweithio'n galed ar ei gyfer ar yr ochr yma ac ar yr ochr honno o'r lwerydd a dw i'n ddiolchgar o'r adnoddau a chronfeydd a gawn ni bob blwyddyn. Dw i'n gobeithio y gall llawer mwy o bobl gael yr un cyfleoedd a gefais i, er mwyn galluogi eich iaith, ein hiaith, i gael ei siarad ym Mhatagonia am lawer o flynyddoedd i ddod. Ar ol ugain mlynedd, dw i'n dathlu fy ailgeni, genedigaeth fy hunaniaeth Gymreig. Dw i yn un o'r rhai sy wedi dysgu Cymraeg gan gychwyn o ddim. Merch o genhedlaeth y cynllun i'r carn.



HUNANGOFIANT HEN GOEDEN

ESTHER EVANS HUGHES



Coeden helyg wylofys ydw i. Dwi'n hen, yn llesg, a darnau ohona i wedi syrthio i'r llawr yn sych. Mae'r adar bach yn dal yn gwmni i fi...mae'r tŷ hefyd yn hen, yn oer, yn wag...ond fel pawb arall, mae gen i stori.

Pan oeddwn ond brigyn digon eiddil, teithiais o ddyffryn Camwy i'r Andes mewn wagen oedd yn cario llawer o nwyddau eraill. Roeddwn yn rhan o fwndel o ddarnau o helyg wylofys anfonai ffarmwr i gael eu tyfu am y tro cinta yn y rhan yma o'r wlad. Ces i fynd i ffarm i ben pella'r cwm. Roedd Taid yno, a plannodd fi mewn lle heulog, ddim ymhell o gornel y tŷ. A taid ofalodd y dyddiau cynta fod digon o ddŵr i'w gael o'm cwmpas. Roedd y pridd yn gyfoethog, fellu daeth y gwreiddiau i'm dal i fyny ac erbyn y gwanwyn roeddwn yn llawn dail bach gwyrdd golau. Tyfais o flwyddyn i flwyddyn nes dod yn fawr, fawr. Roedd fy nghanennau yn disgyn bron i'r llawr a'r dail hir, cul yn wyrdd a ffres bob amser. Byddai genthod y teulu yn gwneud plethan efo'r cangennau a'i rhoi am eu pennau fel coron.

Ond nid oeddwn fy hunan, yn agos i fi oedd y goeden leloc yn llawn blodau peraroglus bob gwanwyn. Roedd coeden pañil yno a'i blodau fel orennau bach melyn. Ac o gwmpas, lilies gwyn, lilies glas, rhosod, ambell dwpmath o hen ŵr, ac wrth gwrs y daffodils. Ochr arall i'r tŷ roedd llawer o goed eraill a gardd. Ond fi oedd y frenhines, roeddwn mor fawr, mor urddasol.

Pan fyddai'r wawr yn dechrau goleuo'r brynau, bendigedig oedd gwranddo cân yr adar oedd yn llochesu ym mherfeddion fy nghorff. Rhai bach o bob lliw a llun yn canuam goreu. Ac yn ystod y dydd roedd y gwddihw yn aros nes fyddai yn nos i fynd allan i chwilio am lygoden. Yr ochr arall i fi oedd cae tatws, rhesi twt yn tydu yn yr haul, ac yn bellach, cae alfala. Dyne lle oedd robin goch yn nythu a hefyd y cornchiglod – teros – a'r plant wrth eu boddau yn chilio am eu nythod, ond chaent ddim hel wyay, gofalodd eu mam eu bod yn parchu natur. Ar waelod y cau roedd tir gwlyb, a fanno roedd y gwyddau gwyllt yn un haid, pan fyddai bron yn nosi, clywn eu swn hudolus craaaawc craaaawc. Yn y gaeaf fel pob coeden arall golwg trist oedd arnaf yn noeth ac yyn llwyd, ond fi oedd y cyntaf i ddeilio yn y gwanwyn. Aeth taid yn sydyn rhyw fore ar ei daith olaf, ond roedd Jane a Penry a llond cartref o blant bach.

Amser braf oedd hwnw, pawb yn brysyr ac yn hapus, clywn lleisiau'r plant yn canu yn amal yn y tŷ, hefyd miwisig gitar a bandoreor.

Weithiau byddai Penry yn gwneud asado o danaf, a dyma ogla'r mwg yn gymysg a ogla hyfryd y cig yn crasu yn dod i fyny rhwng y dail. Cinio syml oedd o, cinio teulu ffarm, sleisen o gig ar ddarn o fara cartre a pawb yn eistedd o gwmpas yn mwynhau. Pwdin llaeth i orffen falle. Dim helynt, dim ffys, y cŵn yn gorffen crafu'r esgyrn. Dim sbwriel na phapur na plastic. A sŵn y nant fach yn ymyl.

Efo'r blynyddoedd dechreuodd y plant fynd i ffwrdd, ysgol, gwaith, priodas. Aeth Penry a Jane hwythau'r un ffordd a taid. Arhosodd pawb yn dawel...

A dyma fi. Yn Sbaeneg mae diahreb yn dweud fod coed yn marw ar eu traed.

Rwy'n hoffi'r syniad. Gobethio mae dyna yw fy nhynged i.

NOE SANCHEZ JENKINS

Fy mywyd i yng Nghymru

Cyrhaeddais i ddiwedd mis Gorffennaf, ers y dyddiau hynny dw i'n siarad Cymraeg pob ddydd, trwyr amser.

Ar hyn o bryd dw i'n byw yn Aberystwyth, yng nghanol y dre, agos iawn i'r Brifysgol, lle dw i'n mynd pob bore i ddysgu mwy o Gymraeg.

Dechreuais i i wneud y cwrs Canolradd, ac roedd ofn arno i, ond pan dechreuodd y dosbarth sylweddolais i roeddwn wedi gwneud yr un peth yn Esquel, dyna pam, symudais i i'r cwrs PUMP!, felly rwan dw i'n gwneud y cwrs Meistroli. Dw i'n teimlo yn hapus iawn, achos dysgais i llawer o bethau newydd, dw i wrth fy modd yn y Brifysgol.

Mae'r cwrs yn ddiddorol iawn, dyn ni'n dweud ei fod yn rhyngwladol achos mae dwy o Batagonia, un o'r Almaen, un o Loegr, un o Iwerdon ac un o Japan! Ac roedd yr athro o'r wythnos cyntaf o Lydaw yn wreidiol, felly roedd yn neis clywed Cymraeg gyda acenau gwahanol. Dydy nhw ddim yn siarad Sbaeneg a dydyn ni ddim yn siarad Saesneg, felly rhaid i ni defnyddio'r Gymraeg, a hynny ydyr peth gorau, rhaid i'r athro esbonio popeth yn Gymraeg. Dim Saesneg o gwbl!!!!

Dw i wedi cwrdd a llawer o bobl newydd, dw i'n cael cyfle i siarad a nhw pob dydd, mae byd prifysgol Aber yn hyfryd!! Dw i'n dwli ar Aberystwyth! Mae'r golygfa yn hyfryd, ddim ots ble ti'n edrych. Sw'n y môr, y pobl yn neis iawn, dw i'n gallu defnyddio'r Gymraeg ar y stryd, yn y siop, pob man!



Ces i gyfle i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol, es i gyda'r Brifysgol, bu'n brofiad arbennig!!! Ron i wrth fy modd!! Ac roedd y tywydd yn braf iawn, gwelais i yr haul, (peth rhyfedd yma). Cwrddais i gyda pobl sy wedi bod ym Mhatagonia, a siaradais i llawer o Gymraeg. Dw i'n falch iawn.

Es i i ddawnsio gwerin yma yn Aber. Criw anhygoel! Roedd pobl yn eu chwedegau ac un fenyw yn edrych fel fy Nain yn dawnsio am ddwy awr. Roedd yn hyfryd! Roedd fy nghoesau yn brifo! Don i ddim yn gallu mynd fynny'r grisie!

Nawr rwy'n gwybod bod popeth fy mod wedi clywed am Gymru yn wir.
Mae'n wlad hyfryd, mae'n teimlo fel adra.

YSGOL 24 ESQUEL

Aeth criw mawr o blant 10 ac 11 oed o Ysgol 24, Esquel i gystadlu yn eisteddfod ysgolion Puerta del Sol yn Nhrevelin.

Cafwyd llwyddiant mawr yn y llefaru Cymraeg unigol, y cydadrodd Cymraeg a'r llefaru unigol yn Sbaeneg. Roedd athrawes y plant Diana Jenkins wrth ei bodd ac roedd yr ysgol i gyd yn falch iawn ohonynt. Cafwyd canmoliant mawr gan y beirniaid. Llongyfarchiadau mawr!



Buodd rhai o'r plant hefyd yn perfformio mewn Acto ar ddiwrnod Gŵyl y Glaniad yn y Ganolfan yn Esquel.

Pwy 'Dych Chi?

Dysgwyr Esquel



Helo. Luis dw i. Dwi'n dod o Futalaufquen ond dwi'n byw yn Esquel. Dwi'n briod ag Isabel Freeman. Dwi'n gweithio yn y swyddfa dwristiaeth. Dwi eisiau dysgu Cymraeg yn Ysgol Gymraeg yr Andes. Dwi'n hoffi gwyllo adar a tynnu lluniau.



Silvio dw i. Dwi'n dod o Esquel. Dwi'n hoffi mynd i'r jim. Dwi'n hoffi gweithio yn y garej. Dwi'n hoffi dringo. Dwi'n hoffi canu Dafydd Iwan. Dwi'n hoffi mynd i lyn Futalaufquen.



Helo. Claudia dw i. Dw i'n gweithio yn Ysgol y Cwm. Dwi'n dod o Fuenos Aires ond nawr dwi'n byw yn Esquel. Dwi'n hoffi beicio yn y mynyddoedd a dwi'n hoffi teithio. Mae tri mab hyfryd da fi.



Helo bawb! Mariela dw i. Dwi'n byw yn Esquel ond yn dod o Drevelin. Dwi'n gweithio mewn ysbyty. Dwi'n hoffi cerdded ac hefyd rhedeg yn y mynyddoedd. Dwi ddim yn hoffi coginio na swmddio. Dwi'n briod. Mae tri o blant da fi. Mae un chwaer da fi. Bues i yn Chile dydd Gwener diwetha.



Helo! Sumae? Diana dw i. Dwi'n dod o Esquel. Dwi'n gweithio mewn swyddfa. Mae dau o blant da fi, mae dwy ferch da fi. Dwi'n hoffi smwddio. Dwi ddim yn hoffi coginio.



Darn disgrifiadol gan Diana Nichols, Esquel

Er bod Diana yn byw yn Esquel ac yn mynychu dosbarth Gloywi a Darllen yn y Ganolfan yna, mae hi'n dod o Drevelin yn wreiddiol a chafodd hi ei geni a'i magu ar y fferm.

'Dw i'n wyth oed. Dw i'n byw ar y fferm gyda fy nheulu. Mae'r ysgol yn bell ac mae'r dosbarthiadau yn dechrau heddiw. Mae hi'n oer. Codais i yn gynnar. Dw i'n bryderus. Gwisgais i fy ffedog wen, côt a chap. Mae popeth yn y bag yn barod. Dw i'n mynd gyda fy mrawd sy'n saith oed i'r ysgol.

Hyd y flwyddyn ddiwethaf aeth fy mrawd hynaf gyda ni ond mae o yn Nhrevelin yn gorffen yr ysgol gynradd.

Pan dw i'n agosáu at y ceffyl mae ofn arnaf fi. Mae'r ceffyl yn dal a dw i ddim yn cael mynd i fyny i gefn y ceffyl. Mae Mam yn helpu fi. Beth wnawn ni pan fydd Mam ddim gyda ni?

Dyn ni'n arfer rhoi'r ceffyl wrth ochr y ffens i fynd i fyny ac i ddod lawr ond mae Mam yn helpu fi bob amser. Rhaid i i farchogaeth dros 5 km i gyrraedd Ysgol 18 (ein hysgol ni).

Awn ni'n araf. Dyn ni'n adnabod y ffordd. Gwelwn ni anifeiliaid yn pori, sgwarnogodyn rhedeg a llawer o adar yn hedfan yn uchel uchel...


Dw i'n hapus. Gwela i fy nghyd-ddisgyblion ac athro blwyddyn diwethaf a, siwr o fod, dysga i lawer o bethau newydd eleni.'

ARDEGWYR TREVELIN

Mae'r dosbarth yn llawer o hwyl. Dyn ni'n chwerthin llawer. Dyn ni'n siarad gormod. Dyn ni'n gwyllo 'Celwydd Noeth' ar S4C. Mae'r rhaglen yn gystadleuol ac yn gyffrous. Gwylion ni 'Y Sioe Fawr'. Gwelson ni cneifio. Roedd Nahiara'n hoffi gweld pobl yn rhedeg gyda'r ceffylau.

Dyn ni wedi ymarfer cydadrodd ar gyfer eisteddfod Puerta del Sol, 'Amgueddfa'. Roedd Hevin, Megan a Nahiara yn adrodd yn unigol, 'Pry'.

Dyn ni wedi gwneud fideo dawnsio gwerin i Gymru. Gweithio ni yn swper Gŵyl y Glaniad a dyn ni wedi gweithio yn y te yn y prynhawn. Dyn ni'n ysgrifennu llythyr ysgoloriaeth Coleg Llanymddyfri. Dyn ni wedi gwenud cyfieithu ar gyfer Eisteddfod y bobl ifanc.





8 PETH NEWYDD DWI WEDI DYSGU AM Y WLADFA

Mae Mared Gruffydd yn fyfyrwraig ieithoedd ym mhrifysgol Sheffield. Buodd hi'n gwirfoddoli yn ysgolion Cymraeg yr Andes am bum mis eleni.

Y tro cyntaf i mi glywed am Y Wladfa oedd pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd a dywedodd Taid wrtha i fod ei ffrind newydd fynd draw i Batagonia i bregethu yn y capeli yno – yn Gymraeg! “Patagonia” oedd y gair a ddaru aros yn fy ngho’, ac yn lle dychmygu ardal o brydferthwch naturiol, yn llawn o fynyddoedd a llynnoedd fel y dychmygai'r Saeson pan feddyliau nhw am y gair, dychmygais i am feicrocosm o Gymru, lle mae siaradwyr Cymraeg i'w clywed ar y strydoedd a phobl i'w gweld mewn gwisg draddodiadol yn piciad i'r siop fara. I ddweud y gwir, daliais ymlaen i ddychmygu a hyd yn oed i gredu hyn yn y brifysgol, pan ddechreuais feddwl am Batagonia unwaith eto ar ôl i'n darlithydd Sbaeneg ddweud wrtha i a fy nghyd-fyfyrwyr y buasa hi'n bosibl i ni gael treulio ychydig o fisoedd yn Ne America fel rhan o'n cwrs. Roedd hyn yn berffaith i mi – gyda chymorth ariannol y brifysgol, roeddwn i un cam yn agosach at fy mreuddwyd hyd-oes o fynd i ymweld â'r Wladfa, ac yn wir, bues i'n lwcus iawn o chael treulio pum mis yno, yn gwirfoddoli yn yr ysgolion Cymreig. **Dyma rai o'r pethau a sylwais am yr ardal a'i phobl yn ystod f'amser bythgofiadwy yno.**

Mae'r Ariannin yn anferth. Mae Chubut, un o'r chwech talaith sydd ym Mhatagonia, yr un maint yn union bron â Phrydain Fawr. Fedrwn chi ddychmygu felly pa mor fawr ydi Patagonia, ac o hynny pa mor enfawr ydi'r Ariannin, oherwydd dim ond yn ne'r wlad mae Patagonia. Yn Chubut yn unig mae'r disgynyddion Cymreig yn byw, ac felly nid ym Mhatagonia i gyd fel yr oeddwn i'n credu pan roeddwn i'n iau.

Mae'r Gymuned Gymraeg yn glos. Tua 5,000 o bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg yn Y Wladfa heddiw, a'r rhan fwyaf, os nad i gyd, yn byw yn unai Trevelin ac Esquel yng nghysgodion yr Andes neu yn nhrefi Dyffryn Camwy, fel Gaiman, Porth Madryn a Trelew, wrth lan Môr Yr Iwerydd. Pan ewch chi i un o'r llefydd yma cewch wybod yn syth pwy sy'n gallu siarad Cymraeg, a wnaiff pawb wneud yn siŵr eich bod chi'n dod i'w 'nabod nhw – fel arfer dros baned o dê a ddarn o fara brith, gan bod y

Gymuned yn trefnu llawer o weithgareddau gwahanol sawl gwaith y mis.

Mae'r Archentwyr yn bobl croesawgar iawn. Y munud y cyrhaeddais faes awyr Buenos Aires, wedi llwyr ymlâdd ac ar goll braidd ar ôl cymryd yn hirach na'r disgwyl i gyrraedd y wlad gan bod streics ymlaen ar y pryd, sylweddolais bod y bobl yn glên ac yn gyfeillgar oherwydd i sawl unigolyn weld yr olwg ddryslyd ar fy wyneb a dod i fy helpu. Yr un peth oedd y sefyllfa yn Nhrevelin ac Esquel gan i mi gael croeso cynnes gan bawb a chael gwadd am swper gan fwy nag un person yn syth.

Mae'r Gymraeg yn wahanol i'n Cymraeg ni adref. Yn union fel sut mae dylanwad y Saesneg i'w chlywed yn ein defnydd ni o'r Gymraeg yng Nghymru, yn enwedig rhwng pobl ifanc o fy nghenedlaeth i, mae dylanwad y Sbaeneg i'w chlywed yn nefnydd yr Archentwyr o'r Gymraeg yn Chubut. Enghraifft o hyn yw'r cyfieithu llythrennol o'r Sbaeneg i'r Gymraeg fel “penblwydd llawen”, “welest ti?” a “calon” (sy'n cael ei ddefnyddio'n anwesol fel “cariad”), ond hefyd mae geiriau Cymraeg fel “Nain”, “ysgol” a “tê” yn cael eu defnyddio yng nghanol sgysiau Sbaeneg. Yn ogystal â hynny, dydi rhai pobl ddim yn gallu siarad gair o Saesneg a felly mae eu Cymraeg yn bur ac yn gywir iawn – rhain yw'r Archentwyr a gafodd eu magu drwy'r Gymraeg a felly sy'n gwbl ddwy-ieithog, ond yn y Gymraeg a'r Sbaeneg, sy'n rhyfeddol iawn i ni oherwydd mae'n beth anghyffredin iawn i ni weld y Gymraeg yn eilradd i unrhyw iaith arall heblaw'r Saesneg.

Mae traddodiadau a diwylliant Cymru a'r Ariannin i'w gweld ochr yn ochr. Y Wladfa yw'r unig le yn y byd lle gallech chi weld y Ddraig Goch yn chwifio'n falch wrth ochr faner yr Ariannin – ym mhrif sgwâr bob pentref, ond hefyd y tu allan i siopa, ar bamffledi ac ar fŵt y ceir. Mae Eisteddfodau hefyd yn cael eu cynnal yn Nhrevelin, Trelew a Porth Madryn sawl gwaith y flwyddyn, ac yno y cewch gymysgedd gytbwys o'r ddau ddiwylliant wrth i'r gynulleidfa yfed maté (math o dê Archentaidd sy'n cael ei yfed ar draws y wlad) a bwyta bara menyn a chacen ddu (fersiwn Y Wladfa o fara brith) tra'n mwynhau gwyllo dawnsfeydd traddodiadol Cymreig ac Archentaidd, a chlywed y cystadleuwyr yn canu ac yn llefaru trwy gyfrwng y

Gymraeg a'r Sbaeneg. Ac wrth gwrs, mae'r ddwy anthem yn cael eu canu ar ddechrau a diwedd y seremoni.

Mae nhw'n bwyta mwy o gig nag ydym ni. Fel wyres, nith a chyfneither i ffermwyr, roeddwn i'n meddwl ein bod ni, fel teulu, yn bwyta llawer iawn o gig, ond dim byd i'w gymharu efo'r teulu roeddwn i'n byw gyda yn Nhrevelin. Mae'r Archentwyr yn hoff iawn o asados, sef y dull o goginio cig ar y tân, a mae'n gyfle i'r teulu i gyd ddod at ei gilydd i sgwrsio a mwynhau bwyd blasus (gyda mymryn bach o win coch anghygoel), tebyg i sut buasen ni'n cael barbeciw adref.

Mae pawb wedi clywed am Gymru. Ar ôl byw yn Lloegr am ddwy flynedd a wedyn ym Mharis am chwe mis, rydw i wedi hen arfer gorfod egluro i bobl lle mae Cymru ac, yn hyd yn oed gwaeth, *beth* ydi Cymru – cymaint nes i fi feddwl cario map o Brydain efo fi yn fy mhoced trwy'r amser. Felly, ces i syndod bendigedig pan gyrhaeddais Y Wladfa a chyfarfod pobl sydd nid yn unig yn gallu rhoi Cymru ar fap, ond sy'n gwybod tipyn am hanes y wlad hefyd – a doedd rhai o'r rhain ddim hyd yn oed yn ddisgynyddion i Gymry chwaith. Y rheswm am hyn ydi'r ffaith ei bod hi'n orfodol i bob plentyn ym mhob

ysgol gynradd yn nhalaith Chubut ddysgu am hanes y Cymry yn cyrraedd glaniau eu gwlad, ond mae rhai Archentwyr tu allan i'r dalaith hefyd yn ymwybodol o'r Wladfa – rhywbeth sy'n gwneud i mi feddwl pa mor ddychrynlyd ydi o nad yw pobl 10 milltir dros y ffin yn gwybod dim am Gymru, ond bod pobl 7, 000 milltir dros Yr Iwerydd, yn gwybod.

Mae rhywbeth yn eich synnu bob dydd. Yn ogystal â chyfarfod Archentwyr sy'n gwybod llawer am Gymru, wnes i hefyd gyfarfod Archentwyr heb ddim math o dras Cymreig o gwbl yn dysgu Cymraeg. Roedd hyn yn syndod anferth i mi ac yn gwneud i mi deimlo'n eithaf emosiynol, oherwydd does gan hyd yn oed pobl sy'n byw yng Nghymru ddim awydd i ddysgu'r iaith, ond yma mae rhai Archentwyr yn mynd ati i ddysgu gramadeg a threiglo gyda brwdfrydedd a mwynhâd pur. I ddweud y gwir, tra roeddwn i'n byw yn Y Wladfa roedd rhywbeth yn gwneud i mi deimlo'n emosiynol mwy neu lai bob dydd – rhwybeth yn fy synnu, yn fy nghyffwrdd, yn gwneud i fy nghalon chwyddo â balchder ac hapusrwydd, yn ogystal â theimlo fod popeth mor swreal, fel nad oeddwn i'n gallu coelio mod i'n gweld y pethau yma'n diwgydd bron. Does dim os amdani, fydd rhaid i chi ddechrau cynllunio a hel arian rwan – fydd rhaid i chi fynd draw i'r Wladfa i brofi ei thrysorau eich hunain.

Gŵyl y Glaniad


Cyn daw'r gwanwyn ym mhob ardal
Gŵyl y Glaniad gaiff ei chynnal
Ac i ni oll blant y Dyffryn
Pa hwyl fwy tan haul bob blwyddyn?
Hon yw gŵyl penblwydd y Wladfa,
Gwyl i gofio'r fintai gyntaf
Ddaeth o Walia tua'r Camwy
Dros baith fôr a phaith ofnadwy.
Y mae dathlu Gŵyl y Glanio
I fawrygu'r fintai honno
Sydd mor felys fyth ei choffa
Eto'n fraint i blant y Wladfa.
A chawn ninnau blantos dedwydd
Ganu'n llawen ar bob tywydd
Am y tadau dewr di-orffwys
Drodd y Wladfa'n deg baradwys.

**Richrad R Rowlands (Dick) Bryn Eirin,
Salem**


Daeth y gerdd hon i law trwy garedigrwydd Aira Roberts, Esquel a darllenwyd hi yn ystod dathliadau Gwyl y Glaniad 2017. Awdur y gerdd oedd ewyrthr Aira sef Richard H. Rowlands (Dick) a buodd yn byw ym Mryn Eirin, Salem, Dyffryn Camwy. Roedd Aira wedi adrodd y gerdd yng Nghapel Salem yn ystod dathliadau Gŵyl y Glaniad 1946. Ond ydy'n wych bod dilyniant i'r dathliadau a lle i bwysigrwydd y glaniad ym mywyd y Gwladfawyr hyd heddiw? Yn wir – 'mae dathlu Gŵyl y Glanio eto'n fraint i blant y Wladfa' diolch i'r cenhedloedd a fu.



O'r archif!
Pwy? Pryd? Ble?



O'r archif!
Pwy? Pryd? Ble?



HUFEN, MEFUS A CHÂN
CÔR CWMANN A'R CYLCH
STRAWBERRIES, CREAM
AND SONG



7.7.2017 7pm

ADOLNIANT GAN BŴR CWMANN A'R CYLCH AC ARTISTIAID ERAILL
 ENTERTAINMENT BY CÔR CWMANN A'R CYLCH AND OTHER ARTISTS

CLWB BOWLIO LLANBEDR PONT
STEFFAN
LAMPETER BOWLING CLUB


Togymau £3 (pŵr with wine/ale) / Tŷdala £5 (available from members)

ELW I YNCHWIL CANDER DU A CHANDLAN GYMREIG YR ANDES YN ESQUEL
 PROCEEDS TO CANCER RESEARCH UK AND CANOLIAN GYMREIG YR ANDES, ESQUEL

www.corcwmann.btck.co.uk (01570) 423231

CANOLFAN ESQUEL: CODI ARIAN YN PARHAU

Mae Cymdeithas Gymraeg Esquel yn parhau i godi arian ar gyfer gorffen yr ysgol newydd. Mae'r festri'n barod ac yn edrych yn hyfryd. Mae ffrindiau o Gymru'n cefnogi llawer, yn enwedig Hazel Charles Evans, Llandybïe.



CHWE MIS, TAIR IAITH PROFIADAU BRAF CYMRO YN YR ANDES LLEWELYN HOPWOOD

Eleni rydw i, myfyriwr Sbaeneg a Chelteg o Gaerfyrddin yn Ne-Orllewin Cymru, ar fy mlwyddyn dramor o Brifsgol Rhydychen, ac fel rhan o'r flwyddyn ryfodd a rhyfeddol hon, er mis Mawrth eleni, rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i gael byw yn Esquel. Ces i fy mhenodi i fod yn athro Saesneg yma ar ran y Cyngor Prydeinig sy'n dapraru 8 siaradwr 'iaith-gyntaf' Saesneg i ysgolion a cholegau ar draws Yr Ariannin. Er nad oeddwn i wedi gofyn i gael dod i'r Wladfa, daeth ffawd i'r adwy, a fues i'n lwcus iawn o gael fy nanfon i'r Andes Cymreig.

Ar sawl achlysur dwi wedi gorfod cymryd eiliad o saib i brosesu mor rhyfedd yw hi fy mod i mewn hemisffer gwahanol i Gymru, dros 12,000 cilomedr i ffwrdd, ac eto bod y Gymraeg i'w chlywed yma, baneri Cymru i'w gweld yma, a 'torta galesa' i'w flasu yma! Un o'r troeon hynny oedd fy noson gyntaf un yn Esquel pan es i allan gyda rhai o athrawon Profesorado 809, lle dwi'n gweithio, i far Heiskel lle mae baneri Cymru a mapiau o'r wlad ar y wal, ac enw'r cwrw oedd 'Cwrw Coch'! Doeddwn i methu credu'r peth! At hynny, roedd yn rhaid i mi ail- a thrydydd-ddarllen yr ebost ces i'n dweud fod

Un o'r troeon hynny oedd fy noson gyntaf un yn Esquel pan es i allan gyda rhai o athrawon Profesorado 809, lle dwi'n gweithio, i far Heiskel lle mae baneri Cymru a mapiau o'r wlad ar y wal, ac enw'r cwrw oedd 'Cwrw Coch'! Doeddwn i methu credu'r peth! At hynny, roedd yn rhaid i mi ail- a thrydydd-ddarllen yr ebost ces i'n dweud fod dau o'r wyth athro Saesneg yn y profesorado hwnnw'n siarad Cymraeg – Clare Vaughan a Grisel Roberts! Mae fy nghyfnod chwe mis yma yn dod i'w derfyn ym mis Medi, a rhaid cyfaddef, dros y misoedd diwethaf, rydw i wedi dod i ddeall bod y darlun o Batagonia sy'n cael ei beintio i ni yng Nghymru yn gallu bod yn gamarweiniol. I ddechrau, nid pawb yng Nghymru sy'n deall mor enfawr yw'r rhan o'r byd a elwir 'Patagonia' – efallai bod dweud ei fod tua maint Sweden yn helpu ni Gymry i roi'r maint yn ei gyd-destun. At hynny, wrth drafod 'Patagonia', does fawr neb yn gwybod ei fod yn ardal sy'n ymestyn dros de Chile hefyd, yn ogystal â de'r Ariannin. Felly mae'n bosib weithiau ein bod yn meddwl mai un pentref bach gwledig lle mae'r trigolion i gyd yn siarad Cymraeg mewn gwisg draddodiadol yw 'Patagonia'!

Yn ogystal â hyn, o ran sefyllfa'r Gymraeg a gawn yn y darlun, credaf fod y realiti yn wahanol i'r hyn y clywais i amdano pan oeddwn yn blentyn. Er bod siaradwyr Cymraeg Cymru yn gyfarwydd iawn gyda phrydferthwch 'acen Patagonia', y gwir amdani yw yn anaml iawn y mai'r Gymraeg honno i'w glywed ar strydoedd Esquel a Threvelin. Hynny yw, chewch chi ddim mynd i María Castaña neu Serenata a gofyn am eich capuccino yn Gymraeg! Ac ym Mro Hydref, mae'r Gymuned Gymreig yn un clos. Os y'ch chi'n medru'r iaith, mae pawb yn gwybod hynny ac yn gwybod amdanoch – a'r croeso yma oedd un o'r prif rhesymau dwi wedi teimlo'n garterfol yma ers diwrnod rhif un.

Ta waeth, fel y soniais, fy swydd i dros y chwe mis diwethaf oedd helpu hyfforddi athrawon Saesneg y dyfodol yng choleg hyfforddi Profesorado 809 Esquel. O fewn y stafell ddosbarth, Saesneg dwi'n ei siarad gyda'r disgyblion gan fwyaf, a thu allan, Sbaeneg. Swydd ddwyieithog. A gyda'r Gymuned Gymreig, Cymraeg dwi'n siarad gyda phawb sy'n medru, ac felly hefyd gyda'r dechreuwyr am mor hir ag sy'n bosib, cyn troi at Sbaeneg. Felly, mae gen i swydd a bywyd tairieithog yma i raddau, ac mae wedi bod yn agoriad llygad i mi ar sut mae ieithoedd yn rhyngweithio.

Yng Nghymru, gan ei bod hi'n wlad ddwyieithog, ry'n ni'n gyfarwydd iawn gyda'r ffaith fod ieithoedd yn plethu i'w gilydd, yn cyfnewid geiriau a strwythurau yn ôl ac ymlaen. A dweud y gwir, rhyw 'Wenglish' (Welsh+English) yw fy iaith bob dydd i nôl yng Nghymru. Er enghraifft, yn ddi-ffael buaswn yn defnyddio "ma' hwna'n really embarrassing" – cymysgedd o Gymraeg a Saesneg - yn hytrach na'r Cymraeg pur, "mae hynny'n achos cywilydd mawr i mi" ('eso me da mucha vergüenza'). Ceir stori debyg gyda 'Spanglish' wrth i ni glywed ymadroddion fel "¡qué heavy!", "eso es mi hobby" neu wrth gwrs unrhyw frawddeg sy'n cynnwys ffashiwn diweddar y tegan "spinner"! Yn hyfryd iawn, dwi hefyd wedi sylwi ar ambell i air Cymraeg yn llithro mewn i Sbaeneg pobl di-Gymraeg yr ardal hon hefyd. Nid yn unig fe'i clywir yn enwau'r llefydd ('Trevelin', 'Cwm Hyfryd', 'Trelew') ond yn yr un modd, caiff y gair "Nain" ei ddefnyddio fel unrhyw enw anwes arall am 'famgu', a hynny gan bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, e.e. "no viene Daniela porque está con su Nain".

Yn y profesorado bu'n rhaid i mi helpu rhoi gwersi ar bynciau doeddwn i ddim yn gwybod dim byd amdanynt cyn dod yma – a dweud y gwir, doeddwn i ddim yn gwybod braidd dim am fod yn athro cyn dod – ac felly dysgais i lawer am bob math o bethau am addysgu, yr iaith Saesneg a ieithyddiaeth. Oherwydd cyn dod, doeddwn i byth wedi astudio iaith Saesneg, dim ond astudio'i llenyddiaeth a'i siarad! Ond un peth yn benodol y byddaf yn cofio o un o'r gwersi seicoieithyddiaeth (psicolingüística) oedd rhywbeth o'r enw 'ymyrraeth' (interferencia), sef yw'r hyn sy'n digwydd pan mai gwybodaeth o iaith gyntaf (Sbaeneg) yn effeithio ar ffurfio brawddegau yn yr ail iaith (Saesneg). Yn Esquel, felly, roedd clywed fy nisgyblion Saesneg yn dweud "yes or yes" ('ie neu ie') yn gyson wrth geisio dweud "there's no choice" ('does dim dewis') neu "it's inevitable" ('mae'n anochel'), yn swnio'n rhyfedd i ddechrau: "I would love to go to England, because you would have to speak English, yes or yes!" ('carwn fynd i Loegr, oherwydd byddai'n rhaid i chi siarad yn Saesneg, ie neu ie!'). Ond wrth

ystyried mai "sí o sí" byddai'n cael ei ddweud petai'r frawddeg honno yn Sbaeneg ("me encantaría ir a Inglaterra, porque tendrías que hablar en inglés, sí o sí") daeth i'r amlwg mai cyfieithiad llythrennol o'r Sbaeneg oedd yr "yes or yes" hoffus hwn. Er mai esiampl o ddefnydd anghywir o iaith ydyw, mae'n bosib o fewn cenhedlaeth bydd y dywediad yma yn dderbyniol – rhywbeth y buaswn i'n hoffi i ddigwydd gan fy mod yn meddwl ei fod yn ffordd greadigol o siarad! Ac wrth gwrs, mae yna drydedd iaith ar waith yma'n yr Andes; y Gymraeg. Ac yn rhyfedd iawn, gwelir y ffenomenon uchod yn digwydd yma hefyd – y Sbaeneg yn effeithio ar y Gymraeg. Defnyddiaf y gair "rhyfedd", achos fel Cymro, dydw i ddim wedi arfer gyda Chymraeg yn cymryd yr ail safle i unrhyw iaith arall heblaw am Saesneg. Felly mae'r canlyniad o ganu'r Gymraeg ar alaw Sbaeneg yn un anghyffredin, ond yn un â sain hyfryd iddi.

Enghraifft berffaith o'r hyn sydd gen i mewn golwg yw'r cymal lanw "welest ti", a dwi'n siwr fod sawl darllenwydd Llais yr Andes yn gyfarwydd iawn gyda hwn! Yn Sbaeneg yr Ariannin mae "viste" (yr 2il berson unigol, amser gorffennol, o'r ferf 'gweld', "ver") i'w glywed bob yn ail air bron wrth i Archentwr hel rhyw stori neu esbonio rhywbeth. Er enghraifft "yo fui a La Anónima ayer, y hubo un montón de gente, ¿viste?". Yn y cymal hwn ceir ystyr tebyg i "ti'n gweld" ('twel') yn nhafodiaith De Cymru, "'sti" yn y Gogledd, neu "you know" yn Saesneg. Yn ddiddorol iawn, mae'r "viste" hwn i'w glywed yn gryf yng Nghymraeg y Wladfa hefyd ond gyda'i chyfieithiad llythrennol: "welest ti". Digon posib felly y byddai'r frawddeg uchod wedi'i mynegi fel a ganlyn: "es i'r archfarchnad ddoe, ac roedd llawer iawn o bobl yno, welest ti?".

Yn yr un modd, o dro i dro mae posib clywed y defnydd o "pasiwch" wrth olygu "dewch i mewn" gan ei fod yn gyfieithiad llythrennol o'r "pase" a gaiff ei ddefnyddio yn Sbaeneg. Ychwanegwch y rhain at y pethau bach fel dymuno 'Penblwydd Llawn' yn hytrach nag un 'Hapus' (fel ry'n ni'n gwneud yng Nghymru), neu cymsgu tafodiaith y De a'r Gogledd wrth ddweud "allan" a "nawr" yn yr un frawddeg (gogledd: 'allan', de: 'mas'; gogledd: 'rwan', de: 'nawr'), a'r canlyniad yw Cymraeg hudolus Patagonia.

Fodd bynnag, er mor ddiddorol yw astudio'r Saesneg a'r Gymraeg a gaiff eu defnyddio ym Mro Hydref, mae'r hyn sy'n ei wneud yn lle arbennig i mi yn mynd ymhell uwchlaw ymchwil wyddonol. Mae wedi bod yn chwe mis bythgofiadwy a dwi wedi bod wrth fy modd yn cael byw yma yn Esquel ac yn cael mynd ar fy ngwyliau i Drefelin o dro i dro! Mae'r croeso dwi wedi'i dderbyn gan bawb yma – o bawb yn y cymunedau Cymreig yn Esquel a Threvelin, y Cymry sy'n byw yma, yr athrawon Saesneg yn 809, Ysgol 24, Ysgol y Cwm, Capel Seion, ac Esquelenses a Trevelinenses yn gyffredinol – wedi bod yn werthfawr ac yn rhywbeth i'w drysori.

Byddai rhestr o'r atgofion melyn yn un rhy hir i'r erthygl hon, felly dim ond i grybwyll yr un mwyaf diweddar sef y fraint a'r pleser o gael beirniadu'r adrodd a'r dawnsio gwerin yn Eisteddfod Ysgolion Trevelin (ac yna cael dawnsio gyda Dawnsuwr Cwm Hyfryd am ychydig) – llongyfarchiadau unwaith eto i bawb a gymrodd rhan! Gobeithiaf y byddwch oll yn parhau i fwynhau dawnsio gwerin a barddoniaeth Cymraeg, Sbaeneg a Saesneg a pha bynnag iaith arall am amser hir i ddod.

Mae'r baneri Cymru, y canu, a chael siarad Cymraeg bob dydd wedi helpu llawer, ond i'r croeso cyffredinol Archentaidd hoffwn ddiolch am fy ngwneud i deimlo mor gartrefol yma yn yr Andes. ¡Hasta pronto!



Ysgol y Cwm



Rydyn ni wedi cyrraedd ail hanner y flwyddyn ysgol yma yn yr Andes a dyma ni yn ysgrifennu i'ch cyfarch unwaith eto. Mae prysurdeb tymor diwethaf, llawenydd y gwyliau gaeaf a gweithgaredd Gŵyl y Glaniad wedi pasio ac rydyn ni yn edrych ymlaen at y gwanwyn. Mae nifer o ddiwrnodau pwysig yn hanes yr Ariannin wedi cael eu dathlu: 25 o Fai (y diwrnod y penderfynwyd gofyn am annibyniaeth o Sbaen), 9 Gorffennaf (pedair blynedd wedyn,



Plant yr ysgol yn dathlu wythnos y llyfr

derbyniwyd y ddogfen oedd yn rhoi annibyniaeth i'r wlad), 23 Mehefin (Diwrnod y Faner) ac wrth gwrw 28 Gorffennaf sef Gŵyl y Glaniad. Er mwyn dathlu pob dyddiad mae seremoni yn yr ysgol ac yn y dref ac mae'r plant wrth eu bodau yn canu ac yn actio, dawnio ac yn gwisgo gwisgoedd perthnasol. Mae mynychu'r seremonïau fel cael gwers hanes y wlad! Daeth 2 Mehefin â gwên i wynebau'r plant wrth i'r dynion tân alw i mewn i ddathlu Diwrnod y Dynion Tân. Roedd dosbarth plant 4 oed wedi paratoi rap i ddiolch i'r dynion am eu gwaith ac am ddod i'n gweld. Yn ystod wythnos y Llyfr, daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel un o'u hoff gymeriadau o lyfr: fel gwelwch yn y llun mae sawl ffan bach o gomics yn Ysgol y Cwm!

Fel ysgol sydd ddim yn derbyn arian gan Lywodraeth yr Ariannin, rhaid sicrhau bod digon o arian yn dod i mewn trwy beth mae'r rhieni yn talu bob mis i allu talu cyflogau, biliau, siwrsans a chant a mil o bethau achlysurol eraill. Er mwyn casglu arian penderfynwyd y byddai teulu'r ysgol yn cynnal gweithgaredd bob mis felly ym mis Mai cynhaliwyd te Cymreig yn yr ysgol gyda'r rhieni a staff yn dangos eu doniau yn y gegin a mwynheuodd dros 100 o bobl te traddodiadol tra disgynnai eira y tu allan! Ym mis Mehefin cynhaliwyd Mate Bingo, rhywbeth dieithr i drigolion Cymru efallai, lle mae pobl yn mynd a'u mate, diod genedlaethol yr Ariannin, ac yn chwarae Bingo wrth rannu mate gyda'u ffrindiau ac efallai yn prynu teisen neu ddwy hefyd.



Mwynhau'r Te Cymreig Gŵyl y Glaniad


Casglwyd bron i ARG\$35,000 (tua £ 1,500) ac fe'm galluogodd i gyrraedd diwedd y mis yn ddiogel diolch byth! Mae'r arian sy'n cael ei godi mewn digwyddiadau fel y Mate Bingo yn cael ei ychwanegu ato gan ein ffrindiau o Gymru – mae sawl ohonoch wedi rhoi'n hael iawn at gronfa Ysgol y Cwm, ac mae pawb sy'n gysylltiedig ag Ysgol y Cwm yn gwerthfawrogi eich cymorth a'ch hymdrechion.

Rydym yn gobeithio cyflogi athro neu athrawes o Gymru ar gyfer y flwyddyn nesaf – bydd hyn yn gymorth mawr mawr i'r ysgol o ran rhannu'r baich pan ddaw 30 o ddisgyblion bach newydd sbon drwy'r drysau ym mis Mawrth, gan gymryd y nifer o ddisgyblion heinio 90. Os hoffech chi ein helpu i dalu costau'r athro neu athrawes, mae ffurflen archeb banc i'w gael ar ein gwefan. Erbyn hynny, bydd neuadd yr ysgol bron a bod yn barod.

Mae'r gwaith adeiladu eisoes wedi cychwyn, ac ein gobaith yn y pendraw yw cael neuadd y tu cefn i'r ysgol bresennol a fydd yn darparu mwy i ddysgu, a rhywle ar gyfer chwaraeon. Bydd y neuadd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cartref parhaol ar gyfer Eisteddfod Trevelin, a bydd cael gweld y plant yn cystadlu ar eu llwyfan eu hunain yn gwireddu breuddwyd!

Derbynion ni llawer o ymwelwyr yn ystod y cyfnod hefyd: buodd Mared Gruffydd yn gwirfoddoli am dri mis ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddi am fod yn rhan o'n tîm; roedd mwy o ddwylo parod pan ddaeth dau o Brifysgol Caerdydd trwy ysgoloriaeth Santander a hefyd daeth newyddiadurwr rhyngwladol i holi am ein gwaith mewn cyd-destun dathlu 20 mlynedd y Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa – cadwch lygad ar y papurau i weld ei erthygl. Heb os nag oni bai, y dyddiad mwyaf pwysig i Dalaith Chubut a'i thrigolion ydy Gŵyl y Glaniad, sef y diwrnod pan laniodd y Cymry cyntaf ar draeth unig ar arfordir Môr yr Iwerydd ar 28 o

Orffennaf 1865. I gloi wythnos o weithgareddau yn Nhrevelin, cynhaliwyd seremoni yng Nghapel Bethel lle cymerodd pob disgybl rhan wrth ganu a dawnio a chewch weld hyn trwy fynd i dudalen Facebook Ysgol y Cwm. Ar y diwrnod ei hun roedd baner yr ysgol yn seremoni'r dref cyn i bawb gael y cyfle i fwynhau te traddodiadol yn yr ysgol, eto trwy waith caled y rhieni a'r staff cyn rhedeg yn ôl i Neuadd y Dref er mwyn cymryd rhan mewn cyngerdd i ddathlu'r dyddiad ddechreuodd ein hanes ni yn y Wladfa.



Hoffem gyhoeddi bod llyfr rysetiau dwyieithog o hoff fwydydd plant, rhieni a staff yr ysgol wedi cael ei gyhoeddi ac ar o wefan y cwmni Atebol ac yn eich siopau llyfrau yng Nghymru. Mynnwch eich copi o 'Amser Coginio/A Cocinar!' a byddwch yn ein helpu neu ewch i'n wefan www.ysgolycwm.com am fwy o newyddion am ein stori ni.

Dymuniadau gorau a than y tro nesaf!

Cymuned Ysgol y Cwm

Diolch i bawb am eich cyfraniadau.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf at y golygydd cyn gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda: niamjones@hotmail.co.uk

Os hoffech gefnogi'r ysgolion Cymraeg yn yr Andes, cysylltwch â:

Ysgol Gymraeg yr Andes, Esquel:
Ysgol Gymraeg yr Andes, Trevelin:
Ysgol Y Cwm:
Cymdeithas Gymraeg Esquel:

Gladys Jones
Alwen Green
Margarita Green
Silvia Williams
Hazel Charles Evans

gladysjones51@hotmail.com
alwen@live.com.ar
gwybodaeth@ysgolycwm.com
silviaelvina@yahoo.com.ar
collensiarlifan@outlook.com